



## Gwobrau Hearts for the Arts 2021 - Cwestiynau Cyffredin

### Ynglŷn â Hearts for The Arts

#### **Beth yw Hearts for The Arts?**

Menter wobrwyo yw Hearts for the Arts sy'n cydnabod ac yn dathlu cefnogaeth eithriadol llywodraeth leol i'r celfyddydau. Mae rhai awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau diwylliannol yn llwyr ddeall pwysigrwydd y celfyddydau i lesiant cymunedau lleol a gwerth y buddsoddiad bach ond hanfodol hwn, hyd yn oed ar adegau sy'n heriol yn ariannol. Mae Hearts for the Arts am ddiolch i'r cynghorau, y cynghorwyr a swyddogion cynghorau sy'n cefnogi'r celfyddydau ac yn cydnabod yr arwyr di-glod hyn.

#### **Pryd ddechreuodd Hearts for the Arts?**

Dechreuodd Hearts for the Arts ym mis Hydref 2016. Mae bellach yn ei phumed flwyddyn.

#### **Newidiadau ar gyfer 2021**

Mae eleni wedi bod yn un ddigynsail. Ac eto, dro ar ôl tro mae gweithgarwch creadigol a'r celfyddydau wedi dod â chymunedau lleol ynghyd, ac wedi dod nid yn unig â llawenydd ond cymorth angenrheidiol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Eleni, felly, rydym yn canolbwyntio ar yr hyrwyddwyr a'r prosiectau hynny sydd wedi codi ein hysbryd yn ystod pandemig byd-eang, ac wedi brwydro yn erbyn caledi ariannol difrifol i ddod â chreadigrwydd lleddfol i fywydau pobl, gan danio llawenydd a chysur mewn ardaloedd lleol ledled y DU. Fel rhan o'r broses enwebu rydym yn eich gwahodd i gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n benodol i'r pandemig; unrhyw agwedd ar y prosiect neu'r gwaith a fu mewn ymateb i achosion coronafeirws, neu a fu'n ddefnyddiol yn ystod y cyfnod.

Mae rhai o'r newidiadau a wnaethom y llynedd yn dal i sefyll: gwnaethom symud i gynnwys gweithgareddau ymddiriedolaethau diwylliannol sy'n gweithio ar ran awdurdodau lleol. Mae Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau yn awyddus i gydnabod y rhai sydd wedi defnyddio statws ymddiriedolaeth i wella darpariaeth y celfyddydau a bod o fudd i bobl leol.

Ac mae'r categori Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau yn parhau i fod ar agor ar gyfer enwebiadau ar gyfer unrhyw weithiwr awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol; anogir enwebiadau o bob maes.

#### **Pwy sy'n gysylltiedig â'r fenter?**

Mae Hearts for the Arts yn fenter a grëwyd ac a gyflwynwyd gan [Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau](#). Cyflwynir gwobrau 2021 mewn partneriaeth â [Culture Counts](#), y [Gymdeithas Llywodraeth Leol](#), [Thrive](#), [UK Theatre](#), [Celfyddydau Gwirfoddol Cymru](#) a [Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).

#### **Sut caiff ei chyllido?**

Caiff costau'r gwobrau eu hysgwyddo gan Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, sy'n elusen gofrestrdig a ariennir gan roddion y cyhoedd a sefydliadau'r diwydiant celfyddydau. Darperir cefnogaeth mewn nwyddau gan ein sefydliadau partner.

#### **Beth yw categorïau'r gwobrau?**

Mae yna dri chategori gwobrau:

1. Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau - Cynghorydd
2. Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau - Gweithiwr mewn Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol
3. Prosiect Celfyddydau Gorau

#### **Pa ardaloedd daearyddol sydd wedi'u cynnwys?**

Mae'r gwobrau'n cynnwys prosiectau a gwasanaethau creadigol a Chynghorwyr, swyddogion a gweithwyr ledled Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.



## **Beth yw'r dyddiadau pwysig ar gyfer y gwobrau eleni?**

Mae'r enwebiadau'n agor ddydd Gwener 20fed Tachwedd 2020 ac yn cau am hanner nos ddydd Sul 6 Rhagfyr 2020.

Cyhoeddir y rhestr fer ddydd Iau 14 Ionawr 2021, a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi ar neu o gwmpas Dydd San Ffolant - fel y gallwn ddangos rhywfaint o gariad i'n henillwyr! Mae Dydd San Ffolant yn ddydd Sul yn 2021 felly efallai y byddwn yn newid y cyhoeddiad am yr enillwyr i'r dydd Gwener cyn neu'r dydd Llun ar ôl hynny (i'w gadarnhau).

Cyflwynir y gwobrau mewn cydweithrediad â chynhadledd Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon y Gymdeithas Llywodraeth Leol a fydd yn cael ei chynnal yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth 2021.

## **Enwebiadau**

### **Pwy y gellir eu henwebu?**

#### **Ar gyfer Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau - Cynghorydd:**

Mae arweinyddiaeth yn hanfodol bwysig i gadw'r celfyddydau wrth galon cymunedau. Mae'r wobwr hon ar gyfer y rhai sy'n eiriol dros y celfyddydau, eu cefnogi ac yn ymgysylltu â hwy yn eu rôl fel Cynghorydd etholedig.

Unigolyn y mae ei waith yn annog ac yn dylanwadu ar weithgareddau celfyddydol yn ardal ei gyngor. Rhaid bod y gwaith rydych chi'n eu henwebu ar ei gyfer wedi cael ei wneud fel rhan uniongyrchol o'u cyflogaeth gyda chyngor sir, dosbarth, bwrdeistref neu ddinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol (gan gynnwys ymddiriedolaethau diwylliannol sy'n darparu gwasanaethau ar ran eu hawdurdod lleol). Rhaid bod yr unigolyn wedi gweithio i'r cyngor sir, dosbarth, bwrdeistref neu ddinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol o fewn y 12 mis diwethaf.

Mae Maer yn gymwys i gael ei enwebu yn y categori Hyrwyddwr Celfyddydau Awdurdod Lleol Gorau – categori Cynghorydd.

#### **Ar gyfer Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau - Gweithiwr mewn Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol:**

Mae'r wobwr hon ar gyfer gweithwyr Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Diwylliannol sy'n gweithio'n angerddol ac yn ddiflino ar brosiectau a rhaglenni celfyddydol yn eu cymunedau yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw'r categori hwn yn gyfyngedig i'r rhai sy'n gweithio yn adrannau'r celfyddydau a threftadaeth; er enghraifft gallent weithio ym maes cynllunio neu ofal cymdeithasol.

Unigolyn y mae ei waith yn annog ac yn dylanwadu ar weithgareddau celfyddydol yn ardal ei gyngor. Rhaid bod y gwaith rydych chi'n eu henwebu ar ei gyfer wedi cael ei wneud fel rhan uniongyrchol o'u cyflogaeth gyda chyngor sir, dosbarth, bwrdeistref neu ddinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol (gan gynnwys ymddiriedolaethau diwylliannol sy'n darparu gwasanaethau ar ran eu hawdurdod lleol). Rhaid bod yr unigolyn wedi gweithio i'r cyngor sir, dosbarth, bwrdeistref neu ddinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol o fewn y 12 mis diwethaf.

#### **Ar gyfer y Prosiect Celfyddydau Gorau:**

Menter, prosiect neu wasanaeth creadigol sydd wedi'i ddarparu gan gyngor sir, dosbarth, bwrdeistref neu ddinas neu ymddiriedolaeth ddiwylliannol. Rhaid bod y fenter neu'r prosiect wedi digwydd rhwng 1af Hydref 2019 a 20fed Tachwedd 2020.

Mae'r categori hwn yn cydnabod y prosiectau a'r gwasanaethau creadigol a gyflawnwyd er gwaethaf pob dim ac a greodd gysylltiad ar adeg pan rydym oll wedi cael ein gorfodi i fod yn ddatgysylltiedig. Rydym yn croesawu ystod eang o enwebiadau o weithgarwch creadigol sydd



wedi dod â chymunedau ynghyd, i ddefnydd dinesig o adeiladau diwylliannol a sefydliadau celfyddydol lleol.

### **Pwy a all enwebu? / A oes unrhyw un na all enwebu?**

Gall unrhyw un wneud enwebiad.

Er enghraifft, gallech fod yn aelod o'r cyhoedd sydd wedi gweld neu wedi bod yn rhan o brosiect gwych gan awdurdod lleol; yn weithiwr mewn awdurdod lleol sy'n rhedeg menter; neu'n gydweithiwr i rywun rydych chi'n meddwl sy'n haeddu gwobr.

### **Sut mae enwebu?**

Gallwch enwebu prosiect neu berson trwy lenwi ffurflen enwebu yn: <http://forthearts.org.uk/campaign/arts-for-the-arts/>

Mae'r enwebiadau ar agor rhwng 20 Tachwedd 2020 - 6 Rhagfyr 2020.

### **A allaf wneud mwy nag un enwebiad?**

Nid oes cyfyngiad ar nifer yr enwebiadau y gallwch eu gwneud. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno ffurflen enwebu ar wahân ar gyfer pob un.

### **Beirniadu'r Gwobrau**

#### **Beth yw'r broses feirniadu?**

Bydd Ymddiriedolwyr o Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau ac aelodau o'r sefydliad partner yn llunio rhestr fer o enwebeion o'r holl enwebiadau yr ydym yn eu derbyn. Yna bydd ein panel o feirniaid yn ystyried rhinweddau pob enwebai ar y rhestr fer ac yn sgorio pob cais yn seiliedig ar y meini prawf a nodir yn y ffurflen enwebu, gan bennu'r enillydd ar gyfer pob categori.

#### **Pwy yw'r beirniaid?**

Y beirniaid yw Samuel West, actor a Chadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, ynghyd â phanel o ffigurau uchel eu parch yn y celfyddydau (i'w cyhoeddi).

Mae beirniaid blaenorol wedi cynnwys Samira Ahmed, Maria Balshaw, Deborah Bull CBE, Les Dennis, Susie Dent, Julie Hesmondhalgh, Jude Kelly, Gary Kemp, AL Kennedy, Kwame Kwei-Armah, David Lan, Lorna Lee, Josie Long, Chi-chi Nwanoku OBE, Phillip Pullman, Alom Shaha, Bob & Roberta Smith, Errollyn Wallen CBE a Roy Williams OBE.

### **Yr Enillwyr**

#### **Sut bydd yr enillwyr yn cael eu cydnabod?**

Cyflwynir y gwobrau gan Samuel West, actor a Chadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau mewn cydweithrediad â chynhadledd Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon y Gymdeithas Llywodraeth Leol - a fydd yn gynhadledd ddigidol ar ddechrau mis Mawrth 2021. Gwahoddir yr enillwyr i fynychu'r gynhadledd ddigidol, sef y cynulliad blyneddol mwyaf o gynghorwyr a swyddogion sy'n ymwneud â diwylliant, twristiaeth a chwaraeon. Bydd Samuel West hefyd yn cynnig siarad mewn cyfarfod cyngor i bob enillydd.

#### **Pwy yw'r cyn-enillwyr?**

Gallwch ddarllen am enillwyr y llynedd [yma](#).

### **Cymorth Pellach**



### **Sut galla i neu fy sefydliad helpu?**

Gallwch ein helpu drwy ledaenu'r neges am y gwobrau. Rydym eisiau digonedd o enwebiadau o bob un o wledydd Prydain, ac ar ôl cyhoeddi'r rhestr fer a'r enillwyr, rydym am wneud tipyn o sioe am y gwaith gwyh maen nhw'n ei wneud. Cofiwch ein dilyn ni ar Twitter [@weareforthearts](https://twitter.com/weareforthearts) a defnyddio'r hashnod #HeartsfortheArts, ac ar Facebook [facebook.com/weareforthearts](https://facebook.com/weareforthearts) i rannu'r newyddion da.

Gallwch hefyd gefnogi'r gwobrau a gwaith ymgyrchu Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau drwy ymuno â'n cynllun cefnogwyr yn [forthearts.org.uk/support-us](https://forthearts.org.uk/support-us) neu cysylltwch â ni drwy [hello@forthearts.org.uk](mailto:hello@forthearts.org.uk) os hoffech helpu mewn unrhyw ffordd arall.

### **Gwybodaeth Gyswilt**

#### **Gyda phwy ddylwn i gysylltu i gael rhagor o wybodaeth am Hearts for the Arts?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am wobrau Hearts for the Arts, e-bostiwch [hello@forthearts.org.uk](mailto:hello@forthearts.org.uk).

#### **Gyda phwy ddylwn i gysylltu i gael rhagor o wybodaeth am Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau**

I gael rhagor o wybodaeth am waith Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, e-bostiwch [hello@forthearts.org.uk](mailto:hello@forthearts.org.uk).

#### **Ble alla i ddod o hyd i Hearts for the Arts ar y cyfryngau cymdeithasol?**

Rydym ar Twitter yn [@weareforthearts](https://twitter.com/weareforthearts) a #HeartsfortheArts.

Gallwch ddilyn Hearts for the Arts ar Facebook yn [facebook.com/weareforthearts](https://facebook.com/weareforthearts)

#### **Sut galla i gael y wybodaeth ddiweddaraf?**

[Ymunwch â'n rhestr bostio yma](#) am ddiweddariadau achlysurol ar Wobrau Hearts for the Arts ac Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau.



# National Campaign FOR THE ARTS

In Partnership with:

